Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Mr Aled Jones Evans
Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni
Llanllwni
Pencader
SA39 9DX

25/04/2025

Annwyl Mr Jones Evans

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Wirfoddol Llanllwni yn ddiweddar i ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'i hadroddiad arolygiad craidd blaenorol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i ymweld â dosbarthiadau, siarad â disgyblion, cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr, craffu ar waith disgyblion, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar y gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i wella.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n fwriadus i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau i'w datblygu ymhellach.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol ac estyn ymhellach profiadau rhifedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm

- Mae gan arweinwyr brosesau hunan wella cadarn sydd yn rhoi darlun clir iddynt o gryfderau'r ysgol a'r meysydd datblygu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol yn erbyn y flaenoriaeth ac o'r meysydd sydd angen iddynt eu datblygu ymhellach.

- Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff i gefnogi cynnydd y disgyblion yn eu medrau rhifedd. Mae staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau ac ymweld ag arfer dda mewn ysgolion lleol. Drwy gydweithio cyson a bwriadus gydag ysgol leol, sydd hefyd o dan arweinyddiaeth y pennaeth, mae arweinwyr a staff yn cefnogi ei gilydd yn dda i fynd i'r afael â newidiadau pwrpasol i'r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad medrau rhifedd disgyblion.
- Mae staff wedi addasu eu cynlluniau'n fwriadus i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddwysau eu dealltwriaeth a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau ymarferol a chyd-destunau go iawn. Mae hyn yn datblygu agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu.
- Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol. Mae staff yn cefnogi'r disgyblion yn briodol i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymhwyso eu medrau rhifedd mewn themâu ysgogol yn briodol. Yn ddiweddar, mae'r disgyblion hynaf, wedi cymhwyso eu medrau mesur mewn modd cyffrous wrth gynllunio dillad a threfnu sioe ffasiwn i rieni. Er hyn, nid oes cyfleodd cyson wedi eu cynllunio i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau cyfoethog ac i ddatblygu eu hannibyniaeth yn ddigon rheolaidd.

## Datblygu uwch fedrau darllen disgyblion

- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi bod yn greiddiol wrth ddatblygu dulliau i gefnogi disgyblion i wella eu huwch fedrau darllen. Mae'r ddau aelod staff wedi dilyn hyfforddiant arweinyddiaeth gyda'r awdurdod lleol, ac mae hyn wedi eu galluogi i arwain ar flaenoriaethau allweddol, cytuno camau gweithredu a gwerthuso cynnydd yn effeithiol.
- Mae arweinwyr wedi gweithio'n gydwybodol i graffu ar safonau a chynnydd disgyblion mewn darllen gan adnabod y cryfderau ac agweddau sydd angen sylw pellach. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyd weithio gyda'r staff er mwyn craffu ar waith disgyblion ac ar y profiadau dysgu sy'n cael eu darparu ar eu cyfer.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy'n caniatáu iddynt ddarganfod gwybodaeth yn fuddiol, er enghraifft wrth greu tudalennau cynnwys eu hunain. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu hyder wrth ddarllen ac mae eu huwch fedrau yn datblygu'n fuddiol.

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn dehongli testunau cynyddol ymestynnol yn hyderus gan ddarganfod a chrynhoi'r negeseuon allweddol. Mae athrawon yn cynllunio amrediad cyfoethog o weithgareddau sy'n herio dealltwriaeth disgyblion wrth ddarllen a dehongli testunau Cymraeg a Saesneg. Caiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar fedrau ysgrifennu'r disgyblion hynaf, er enghraifft wrth iddynt greu eu dehongliad eu hunain o ddigwyddiadau mewn nofel hanesyddol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6693026

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol